



De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau
Police and Crime Commissioner
South Wales



COFNOD PENDERFYNIADAU COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU DE CYMRU – mis Ebrill 2020 i fis Medi 2022

DYDDIAD	CAIS AM BENDERFYNIAD	GWYBODAETH ATEGOL	CYMERADWYWDYD/GWRTHODWYD
06/09/2022	Taith Undod yr Heddlu i godi ymwybyddiaeth o Swyddogion Gorfodi'r Gyfraith a fu farw wrth wasanaethu.	Er mwyn codi arian i 'Care of Police Survivors', sef Elusen yn y DU sy'n ymroddedig i helpu teuluoedd swyddogion yr heddlu sydd wedi marw wrth wasanaethu. £500 a roddwyd i Daith Undod Heddlu'r DU 2022.	Cymeradwywyd
01/09/2022	Mae llesiant yn ffocws allweddol fel rhan o Ddyfarniad Buddsoddwyr mewn Pobl a gofynnir am gyllideb fach o £500 i gefnogi'r gwaith hwn.	Bydd y cyllid hwn yn cefnogi mentrau llesiant yn y tîm.	Cymeradwywyd
15/08/2022	Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd ar gyfer gwaith cyfathrebu, ymgysylltu a chynnwys.	Bwriedir iddo gefnogi atebion cymunedol ar gyfer cadw menywod a chymunedau yn ddiogel gyda ffocws ar ymgysylltu â theuluoedd lleol. Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo ac mae angen ymestyn y contract yn ffurfiol. Cadarnhad gan y	Cymeradwywyd



		Comisiynydd i barhau i weithredu fel yr awdurdod contractio.	
04/08/2022	I roi £500 i bob un o'r tri Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, sef Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf ac Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, fel cyfraniad at yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol.	Dyrannwyd cyfanswm o £1,500 sy'n cefnogi'r gwaith o gynllunio a chynnal yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol gan alluogi siaradwyr / gweithgareddau perthnasol ac er mwyn hyrwyddo'r gwaith mewn cydberthnasau wedi'u hatgyfnerthu gan godi ymwybyddiaeth o'r effaith gadarnhaol yn y meysydd hyn.	Derbyniwyd
18/07/2022	I ennill Dyfarniad Arian Safonau Buddsoddwyr mewn Pobl sy'n adolygiad annibynnol i feincnodi Tîm y Comisiynydd o ran y ffordd orau y gallwn gefnogi ein gilydd. Bydd yn costio £7,371.60 i ariannu'r Adolygiad.	Mae'r asesiad hwn yn cynnwys cryn dipyn o waith yn ymwneud â llesiant a ffordd newydd o weithio yn dilyn y pandemig sy'n canolbwyntio ar drefniadau gweithio hybrid a buddsoddi mewn polisi a diwylliant yn y tîm.	Derbyniwyd
12/07/2022	Cais am gyfraniad ariannol gwerth £10,000 tuag at fenter partneriaeth ar y cyd i leihau troseddau yn erbyn busnesau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n effeithio ar fusnesau yn Abertawe a'r cymunedau lle maent yn gweithredu.	Bydd y cyllid hwn yn helpu i gefnogi'r Bartneriaeth Lleihau Troseddau yn erbyn Busnesau sy'n cynnwys sawl partneriaeth ledled ardal Abertawe a fydd yn rhoi cyfle i fwy nag 800 o fusnesau godi eu llais a chymryd camau i fynd i'r afael â throseddu yn erbyn busnesau ac economi'r nos.	Derbyniwyd
08/07/2022	Cais i'r Comisiynydd glustnodi tanwariant 2021/22 a glustnodwyd ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a Merched. Mae'r tanwariant hwn i'w briodoli i fesurau cyfyngu ar symud cysylltiedig yn ystod pandemig COVID-19.	Er mwyn diogelu cyllid y gellir ei ddefnyddio a'i ddatblygu er mwyn darparu gwasanaethau yn Ne Cymru ym maes Eiriolaeth Ar Ôl Cam-drin Domestig Angheuol a fydd yn rhoi cymorth arbenigol i deuluoedd gan y rhagamcenir y bydd y tanwariant presennol yn cyfateb i 100K.	Derbyniwyd

25/05/2022	Cais i lunio a phrofi Model Atebion Llety i fenywod sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru neu sydd perygl o ymuno â'r system honno.	Mae trafodaethau cynnar ar gyfer Glasbrint â goblygiadau ariannol a fydd yn costio 30K ar gyfer y cam hwn wedi'u cynnal â darparwr tai lleol sydd wedi cytuno i wneud y gwaith hwn gyda chymorth partner academiaidd i fapio a deall anghenion menywod yng Nghymru o ran llety.	Derbyniwyd
23/05/2022	Cais am gyfraniad ariannol i Gefnogi Adolygiad o Ddiogelwch Cwm Taf Morgannwg.	Er mwyn i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r tri Awdurdod Lleol yn ardal Cwm Taf Morgannwg gynnal adolygiad annibynnol o drefniadau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn yr ardal y disgwylir iddo gostio £50,000. Mae Grŵp Llywio wedi'i sefydlu â chynrychiolaeth o dîm y Comisiynydd ac mae angen cyfraniad o £10,000 i gefnogi gwaith tuag at yr adolygiad.	Derbyniwyd
12/05/2022	Digwyddiad Mela Amlddiwylliannol Caerdydd 2022 a gynhelir ym Mae Caerdydd ym mis Medi.	Mae'r Mela, sydd yn ei wythfed flwyddyn, yn cyflwyno amrywiaeth eang o ddiwylliannau, cerddoriaeth, dawns, celfyddydau, ffasiwn a bwyd yn ogystal â chynnal gweithgareddau diwylliannol a gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned leol. Nod yr ŵyl yw addysgu, rhannu a dathlu pob diwylliant ac mae'n gyfle gwych i'n Tîm ymgysylltu â'r gymuned drwy waith partneriaeth a gweithgareddau ymgysylltu. Pecyn nawdd yn costio £875.	Derbyniwyd
09/05/2022	Cais am gyllideb i roi'r Cynllun Gweithredu ar y Cyd ar Hil ar waith.	Mae hwn yn barhad o gais am i gyllideb gael ei dyrannu i faes Cydraddoldeb Hiliol, er mwyn darparu hyfforddiant ar wrth-hiliaeth a/neu gymhwysedd diwylliannol i staff Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru. Yn ogystal â	Derbyniwyd

		chynnwys trydydd partion mewn gwaith craffu a goruchwylio. Gofynnir am gyfanswm o £25,000.	
19/04/2022	Adnoddau sydd eu hangen ar gyfer 2022-23 er mwyn rhoi Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) newydd ar waith	Rhan o gyfraniad i bob rhan o Gymru â chytundeb blaenorol yn 2021-22. Fodd bynnag, mae'r cais diwygiedig am ddyraniad cyllid yn cyfateb i £38,125 fesul Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae hyn yn unol ag ymrwymadau yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddu ac mae wedi'i ategu gan dystiolaeth o'r galw.	Derbyniwyd
04/01/2022	Cais i gefnogi'r gwaith o gyflawni sawl blaenoriaeth yn y Glasbrint ar gyfer Troseddwr Benywaidd megis Mynd i'r Afael ag effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, recriwtio Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig er mwyn cefnogi menywod o Gymru sydd yn y carchar a'i gwneud yn bosibl i ddau hyfforddwr gael eu recriwtio ar gyfer Cymorth i Ferched Cymru er mwyn darparu gwasanaethau Rhywedd a Thrawma ledled Cymru.	Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Swyddfa'r Comisiynydd am fod hyn yn cael ei ariannu o Grant a Ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd rhai goblygiadau o ran adnoddau mewn perthynas â rheoli'r grant a ddyfarnwyd sy'n cynnwys £30k i ariannu gofynion adnoddau mewnol. Defnyddir y grant hwn i geisio cytundeb ar y dull o weinyddu cyllid ar gyfer meysydd â blaenoriaeth.	Derbyniwyd
10/12/2021	Cais i ymestyn y Rhaglen Fraenaru i Fenywod a'r Gwasanaeth i Oedolion Ifanc 18-25 oed gan ystyried clustnodi cyllid ar gyfer Cynllun Peilot Drws Troi.	Buddsoddiad yn y gwaith o gyflwyno Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod a'r Gwasanaeth Ymyrryd yn Gynnar i Oedolion Ifanc 18-25 oed sy'n cyfateb i gontract gwerth £1,378,213. Neilltuwyd cyllid yn wreiddiol o dan gontract am ddwy flynedd (Hyd 2019-Medi 2021) gyda'r posibilrwydd o'i ymestyn o flwyddyn i flwyddyn hyd at fis Medi 2023. Mae ymrwymiad	Derbyniwyd

		De Cymru i ariannu rhan o'r flwyddyn ariannol yn cyfateb i £73,490 ynghyd â Gwent a Llywodraeth Cymru. Bydd ymestyn y cyllid ar gyfer Cynllun Peilot Drws Troi am 12 mis arall (Hyd 2022-Medi 2023 yn costio £54,584	
17/12/2021	Cais am adolygiad allanol o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth fel rhan o'r gwaith o ddatblygu adnoddau ym mhob rhan o'r Tîm a Chynllun Cydraddoldeb Hiliol ar y Cyd.	Mae'r asesiad yn seiliedig ar God Cydraddoldeb RACE er mwyn deall y gwerthoedd a'r arferion craidd, drwy ddefnyddio ymarfer ymchwil bwrdd gwaith, gweithdai, dogfennau ac amcanion strategol a monitro effeithiolrwydd perfformiad a chraffu ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae angen ymgorffori pob agwedd ar y canfyddiadau a hyfforddiant ychwanegol a chymorth gyda chymau gweithredu yn y sefydliad yn gyffredinol. Y goblygiadau ariannol yw £10,000.	Derbyniwyd
07/12/2021	Cais am gymorth ariannol er mwyn cyflymu'r broses o ddarparu hyfforddwyr Trais Domestig a Cham-drin Domestig ychwanegol.	Mae angen darparu hyfforddiant ar Drais Domestig i swyddogion yr heddlu sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd nad ydynt yn ymatebwyr cyntaf er mwyn lleihau'r problemau sy'n gysylltiedig ag amserlenni hyfforddiant 'Safelives'. Bydd y buddsoddiad yn helpu i ennyn ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn plismona ar adeg pan fo trais yn erbyn menywod a merched yn cael cryn sylw. Ariennir grant gwerth £66,000 o Grant Llywodraeth Cymru ac, felly, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol.	Derbyniwyd
05/11/2021	Polisi Diogelu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau er mwyn sicrhau bod y sawl sy'n derbyn grant yn abl ac yn cydymffurfio â'r	Mae'r polisi hwn yn nodi'r dull o ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed a hyrwyddo eu llesiant ac mae'n cymwys i bob agwedd ar waith ac i bawb sy'n gweithio yn Nhîm	Derbyniwyd

	gofyniad cyflawni yn nhelerau ac amodau grant y Comisiynydd.	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gan gynnwys staff parhaol, staff dros dro, contractwyr a gwirfoddolwyr.	
07/12/2021	Swyddog Ymchwil Glasbrint – Cytundeb Grant Cyfle i gael budd o'r arbenigedd a'r cymorth academiaidd er mwyn cysoni ymchwil yn well	Dim ond am chwe mis roedd y Swyddog Ymchwil Glasbrint blaenorol yn y swydd ac, felly, mae cyllid ar ôl yn y Gyllideb Glasbrint ar gyfer y Gronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi ar gyfer Partneriaethau i'w defnyddio yn 2021-22. Cais i geisio cytundeb ar y cytundeb grant hwn gwerth £30k i'w roi i lechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn i Swyddog Ymchwil Glasbrint newydd allu cael ei recriwtio, am gyfnod o chwe mis i ddechrau nes i benderfyniadau cyllido gael eu gwneud yn y dyfodol.	Derbyniwyd
02/11/2021	Cais am Gyllid ar y Cyd er mwyn Gwella'r Gallu i Wneud Penderfyniadau yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus – Cefnogi Prosiect Newid Bregusrwydd.	Mae'r Prosiect Newid Bregusrwydd yn ymateb i'r her hon drwy gynnal trafodaethau â Phartneriaid ac Awdurdodau Lleol er mwyn diwygio'r ffordd y gellir gwella'r gallu i ymyrryd yn gynnar a diogelu mewn partneriaeth yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus drwy sicrhau cytundeb cyffredin i gwmpasu canlyniadau fframwaith. Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y cyd rhwng yr Heddlu a Phartneriaid fydd hwn, a fydd yn cynnwys cyfraniad o 50% o Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru. Mae atebolrwydd y Comisiynydd yn cyfateb i £54,198.	Derbyniwyd

04/10/2021	Cais i ariannu'n rhannol y ddrama "Choice of a Lifetime", sy'n ymwneud â diwylliant cyllyll, cyffuriau a gangiau, a gaiff ei llwyfannu gan Tickledom Theatrical Productions Limited far gyfer ysgolion uwchradd yng Nghaerdydd.	Mae 'Choice of a Lifetime' yn ddrama rhaglen ymyrraeth sy'n cael ei pherfformio mewn ysgolion. Fodd bynnag, oherwydd y cyfyngiadau symud yn ystod pandemig COVID-19, caiff y ddrama ei llwyfannu yng Nghastell Caerdydd ym mis Mai 2022 gyda gwahoddiadau yn cael eu hanfon i bob ysgol uwchradd yng Nghaerdydd a chaiff ei pherfformio yn Gymraeg a Saesneg. Caiff disgyblion gyfle i siarad am y rhesymau dros gario cyllell gan gynnwys troseddau treisgar a chyffuriau, eu hofnau ac esboniad o'r gyfraith fel y mae ar hyn o bryd. Bwriedir i ddisgyblion brofi'r cynhyrchiad wedi'i ddilyn gan sesiwn wedi'i hwyluso gan gyfranogwyr yn y Fenter Ddiogelu, yr Heddlu, y sector Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a Chyngor Caerdydd. Caiff canlyniadau'r ddrama eu gwerthuso'n ffurfiol gan Brifysgol De Cymru. Cais am gyfraniad o £20,000 at gostau'r cynhyrchiad.	Derbyniwyd
29/09/2021	Cais am gyllid i ariannu Swyddog Cymorth Dadansoddi ar gyfer Cynllun Rheoli Troseddwyr Integredig.	Y rôl yw gwasanaethu partneriaid, drwy arwain meysydd dadansoddol busnes, darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd Cynllun Rheoli Troseddwyr Integredig, yr effaith ar sefydliadau a chanlyniadau cadarnhaol i gymunedau. Menter bartneriaeth yw hon gyda'r swydd yn cael ei hariannu ar y cyd gan bedwar Comisiynydd Cymru, Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. Cais i gyfrannu £8,000 i ariannu Dadansoddwr ar gyfer Cynllun Rheoli Troseddwyr Integredig.	Cymeradwywyd

28/09/2021	Hyfforddiant ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a ddarperir mewn partneriaeth â'r Sefydliad Rheolaeth Siartredig. Cwrs tri diwrnod yw hwn sy'n galluogi Uwch-arweinwyr i feithrin dealltwriaeth fanwl ar lefel strategol ac o'r ffordd orau o integreiddio amcanion allweddol yn y sefydliad.	Cais am ddau le a ariennir yn rhannol ar y cwrs hyfforddi i'r Dirprwy Gomisiynydd a'r Arweinydd Strategol ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n cyfateb i £2,465.	Derbyniwyd
17/09/2021	Cais am gyllid ar gyfer gweithgareddau mewn Unedau Rheoli Sylfaenol er mwyn hyrwyddo Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb.	Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb rhwng 9 a 16 Hydref 2021. Cais i'r Comisiynydd roi £1,500 i Heddlu De Cymru i'w ddefnyddio yn ystod yr wythnos i argraffu deunyddiau cyfathrebu a nwyddau i'w defnyddio mewn digwyddiadau sydd eisoes wedi'u cynllunio mewn Unedau Rheoli Sylfaenol ac i gysylltu ag asiantaethau partner eraill.	Derbyniwyd
08/09/2021	Gwaredu Gorsaf Heddlu Pen-y-bont ar Ogwr yn Cheapside	Nodwyd bod Gwaredu Gorsaf Heddlu Pen-y-bont ar Ogwr (Cheapside) yn ased i'w waredu o fewn y Bwrdd Strategaeth Ystadau. Yn ôl y Prisiwr Dosbarth, mae'r eiddo yn werth £650,000. Bydd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn rhoi blaendal o 5% pan gaiff contractau eu cyfnewid cyn gynted ag y bo'n ymarferol gyda'r broses waredu yn cael ei chwblhau erbyn mis Mawrth 2022. Y bwriad yw y bydd Heddlu De Cymru yn aros yn yr eiddo "o dan drwydded i feddiannu" nes i bob aelod o'r staff gael ei adleoli erbyn mis Hydref 2022.	Derbyniwyd

16/07/2021	Gwerthu Gorsafoedd Trefforest a Thonypandy drwy arwerthiant	Gofynnir am ganiatâd i waredu hen orsafoedd yr Heddlu yn Nhrefforest a Thonypandy am nad oes angen yr un ohonynt mwyach at ddibenion gweithredol ac am eu bod wedi nodi fel asedau i'w gwerthu yn Strategaeth Ystadau 2018-28. Bydd yr incwm a gynhrychir yn dibynnu ar werth yr eiddo ar ddiwrnod yr arwerthiant. Fodd bynnag, caiff costau rhedeg gwerth tua £31k y flwyddyn eu harbed.	
01/06/2021	Tanwariant a Chronfeydd wrth Gefn Dros Dro 2020/21	Mae'r ffigurau dros dro ar gyfer alldro 2020-21 bellach yn crynhoi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn o gymharu â'r gyllideb refeniw.	Derbyniwyd
24/05/2021	Swyddog Polisi a Phartneriaeth	Oherwydd secondiadau i'r Uned Atal Trais, cytunwyd i ôl-lenwi'r swydd er mwyn cyflawni dyletswyddau o ran Diogelwch Cymunedol a bodloni gofynion ehangach. Mae'r Comisiynydd wedi cytuno i ddarparu cyllid ar gyfer rôl ychwanegol i fodloni'r gofynion ar y tîm sy'n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth. Daw'r cyllid ar gyfer Swyddog Polisi Partneriaeth ychwanegol am gyfnod o ddwy flynedd a chostau o'r dyraniad cyllidebol presennol ar gyfer y rôl hon.	Derbyniwyd
24/05/2021	Strategaeth Chwaraeon Heddlu Cymru Gyfan	Trafododd y cyfarfod 'Plismona yng Nghymru', a gynhaliwyd ar 18/3/2021, bapur i ddod â phob prifysgol yng Nghymru a Chwaraeon Cymru at ei gilydd er mwyn defnyddio pŵer trawsnewidiol	Derbyniwyd

		<p>gweithgarwch corfforol i newid bywydau pobl yng Nghymru. Cysylltwyd â Sefydliad Gweithgarwch Corfforol, Iechyd a Chwaraeon Cymru a Street Games er mwyn gwneud ymchwil yn y maes hwn ac mae angen cyllid i gyflogi dau fyfyrwr gradd Meistr i wneud y gwaith, y naill â phrofiad ym maes iechyd a chwaraeon a fydd yn dechrau ym mis Gorffennaf 2021 a'r llall â phrofiad ym maes astudiaethau troseddol a fydd yn dechrau ym mis Hydref 2021. Y gost fesul myfyrwr yw £5,500. Felly, mae hynny'n cyfateb i £11,000 wedi'i rannu rhwng y pedwar heddlu yng Nghymru, sy'n golygu £2,750 o'n cyllideb ni.</p>	
24/04/2021	Symud Staff Gweithredol i Orsaf Dân y Bont-faen.	<p>Nodwyd bod Gorsaf Dân y Bont-faen yn ased i'w waredu o fewn Strategaeth Ystadau 2018-28 y Comisiynydd. Mae'r Orsaf Dân yn lleoliad delfrydol i symud staff gweithredol sy'n gweithio yng ngorsaf yr heddlu ar hyn o bryd iddo a byddant yn gallu defnyddio cyfleusterau'r swyddfa sy'n cynnwys dau le parcio ac ystafell les am gost o £7,000 y flwyddyn (sy'n cynnwys rhent, ardrethi a chyfleustodau). Bydd gwerthu Gorsaf yr Heddlu yn arbed tua £50K y flwyddyn mewn costau rhedeg.</p>	Derbyniwyd
24/04/2021	Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd – Gwaith Cyfathrebu, Ymgysylltu a Chynnwys	<p>Mae Glasbrint y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru ar gyfer Troseddwyr Benywaidd (2019) yn cynnig cyfle i ddiwygio a thrawsnewid gwasanaethau i fenywod yn y System Cyfiawnder Troseddol. Bydd ymgysylltu â</p>	Derbyniwyd

		<p>chymunedau lleol a theuluoedd yn allweddol i ddatblygu'r gwaith hwn. Cadarnhad gan y Comisiynydd i barhau i weithredu fel yr awdurdod contractio ar gyfer yr adnodd a nodwyd i arwain y gwaith hwn yn 2021/22 ac ymestyn y contract i barhau â'r gwaith hwn. Mae hanner y swm o £70k a gafwyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi wedi'i wario ond mae gweddill yr arian yn talu costau gwasanaethau ymgynghori ac yn ariannu'r gwaith o ddatblygu cynhyrchion sy'n ymwneud â chyfathrebu eithriadol ac yn cefnogi dull gweithredu cydgysylltiedig.</p>	
24/04/2021	Ymestyn Dyfodol 2021/22	<p>Lluniodd darparwr y contract presennol gynllun gyllideb ddrafft ym mis Ionawr 2021 ar gyfer y cyfnod ymestyn +1. Gofynnwyd iddo ddiwygio'r costau er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys y Gronfa Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau ychwanegol. Diwygiwyd y costau a nodwyd tanwariant ychwanegol ac, o ganlyniad, cafodd y swm cychwynnol y gofynnwyd amdano ei leihau a gofynnwyd am £52,287.89 er mwyn parhau i gyflwyno'r rhaglen ar gyfer y cyfnod 2021-22. O ganlyniad, cafodd y swm cychwynnol y gofynnwyd amdano ei leihau o £116,856.67.</p>	Derbyniwyd
16/04/2021	Cyfraniad Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi at gynllun Rheoli Troseddwy'r Integredig	<p>Cynhaliodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru adolygiad llawn o Gynllun Rheoli Troseddwy'r Integredig gyda'r canlyniad bod angen rhaglen waith gynhwysfawr i ail-ganolbwyntio'r Cynllun Rheoli Troseddwy'r Integredig er mwyn</p>	Derbyniwyd

		<p>sicrhau bod trefniadau cadarn ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli troseddwyd o'r dechrau i'r diwedd. Mae'r rhaglen waith yn llawer mwy na'r disgwyl ac mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi wedi cyfrannu £27,500 at swyddfa'r Comisiynydd er mwyn helpu i gyflawni'r prosiect. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol gan mai'r Comisiynydd fydd yn gweithredu fel y Bancer.</p>	
12/04/2021	Ymgynghori ynghylch y broses gwyno	<p>Fel mesur dros dro, tra byddwn yn asesu effaith unrhyw gynnydd a pha mor effeithiol yr ymdrinnir â chwynion, yn benodol y ddyletswydd statudol mewn perthynas ag apeliadau (adolygiadau), mae adnoddau ychwanegol wedi'i nodi. Amcangyfrifir y bydd angen £7,008 am chwe mis ar gyfer 2 ddiwrnod yr wythnos.</p>	Derbyniwyd
18/03/2021	Rolau Cysylltu Prif Weithredwyr / Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau Cymru	<p>Cytunodd pedwar Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau eu bod am atgyfnerthu eu rôl a'u dylanwad yn genedlaethol a gwnaethant ofyn am i rôl gael ei chreu rhyngddyn nhw a Chymdeithas Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau. Ariennir y swydd hon ar y cyd gan y sefydliad am gyfnod o 12 mis (rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021). Fodd bynnag, oherwydd y pandemig ac etholiadau, gofynnwyd i'r cyfnod hwn gael ei ymestyn tan fis Medi 2021 ac, o ganlyniad i hyn, gofynnwyd hefyd am estyniad ar gyfer y Prif Weithredwr dros dro i'r un dyddiad. Nid oes unrhyw oblygiadau o ran cyflog yn deillio o hyn gan nad yw'r ddarpariaeth ar</p>	Derbyniwyd

		gyfer y Prif Swyddog Gweithredol na'r Prif Weithredwr wedi'i llenwi ers 2019.	
25/02/2021	Prynu tir ar gyfer Maes Saethu a Chyfadail Hyfforddiant yr Uned Arfau Tanio ar y Cyd	Cytunodd Heddlu Dyfed Powys, Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru ar y cyd i ddatblygu Maes Saethu a Chyfadail Hyfforddiant Tactegol ar gyfer yr Uned Arfau Tanio ar y Cyd. Cafwyd cynnig cychwynnol gwerth £1.286 miliwn gan Lywodraeth Cymru a nododd prisiad annibynnol fod y pris prynu ar gyfer y tir hwn, sef £1.1m, yn deg. Felly, roedd y tri heddlu yn fodlon argymell y dylid cymeradwyo prynu'r tir am y pris dywededig.	Derbyniwyd
11/01/2021	Rhaglen Bwydydd i Bobl Ifanc	Cais i ariannu'r Rhaglen Bwydydd i Bobl Ifanc o'r gronfa Eiddo Ystadau sydd â goblygiadau ariannol yn cyfateb i £7,500	Derbyniwyd
18/12/2020	Gweithiwr Prosiect ar gyfer y Portffolio Camddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl	Gwelwyd datblygiadau pwysig ym meysydd Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau, ac mae angen cymorth ychwanegol er mwyn parhau i fwrw ymlaen â newidiadau effeithiol. Cais i ariannu Gweithiwr Prosiect ar gontract cyfnod penodol o 24 mis gyda'r swydd yn cael ei hariannu o Gyllid Dyfodol gwerth £97,626.	Derbyniwyd
14/12/2020	Gwerthu Gorsaf Heddlu Pencoed	Nodwyd bod Gorsaf Heddlu Pencoed yn ased i'w waredu o fewn Strategaeth Ystadau 2018-28 y Comisiynydd. Mae'r meddianwyr presennol, sef	Derbyniwyd

		<p>Ffederasiwn yr Heddlu, wedi cynnig £120,000 i brynu'r buddiant rhydd-ddaliadol.</p> <p>Cynhyrchir incwm gwerth £120,000, sicrheir arbediad blynyddol o £20,643 mewn costau rhedeg ac osgoir costau arolygon cyflwr yn cyfateb i £27,413.</p>	
24/11/2020	Cais am gyllideb er mwyn i Dîm y Comisiynydd roi'r Cynllun Ymrwymo i Gydraddoldeb Hiliol ar y Cyd ar waith	<p>Mae Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar y Cyd yn cael ei ddatblygu gyda Heddlu De Cymru a bydd gan ein tîm gyfrifoldebau unigryw o ran cyflawni ac o ran goruchwyliaeth yr heddlu o'r Cynllun. Diben hyn yw sicrhau mai ein rôl yw blaenoriaethu ymgysylltu â chymunedau BAME, unigolion a sefydliadau partner er mwyn helpu i wneud gwahaniaeth. Cais am gyllideb o £20,000 er mwyn i'r gwaith ymgysylltu a gweithredu ddechrau cyn gynted â phosibl gydag unrhyw danwariant yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf.</p>	Derbyniwyd
24/11/2020	Ymchwil i Greu Cymunedau Cydnerth – Dull Partneriaeth	<p>Gyda chymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru, hoffai Sefydliad Iechyd Meddwl gynnig ei fod yn ymuno â ni fel Partner Dysgu am 12 mis er mwyn helpu gyda'r Adnodd Effaith ar Les Meddyliol. Cost y prosiect ymchwil yw £38,700 +TAW</p>	Derbyniwyd
26/11/2020	Ymestyn y Dull System Gyfan a'r Gwasanaeth i Oedolion Ifanc 18-25 oed	<p>Disgwylir i'r contract cyfredol i ddarparu Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod a'r gwasanaeth i oedolion ifanc 18-25 oed ddod i ben ar 30 Medi 2021 gyda chyllid gan Dde Cymru a</p>	Derbyniwyd

		phartneriaid comisiynu eraill yng Nghymru wedi'i gytuno hyd at yr adeg honno. Cais am gyllid am 12 mis arall rhwng mis Hydref 2021 a 31 Medi 2022 a fydd yn costio £683,572 i Dde Cymru (12 mis llawn).	
26/11/2020	Cynllun Peilot Drws Troi Datrysiaidau y Tu Allan i'r Llys	Cafodd cynllun peilot Drws Troi Datrysiaidau y Tu Allan i'r Llys ei gomisiynu'n wreiddiol yn dilyn sefydlu is-grŵp i edrych ar ddatrysiaidau i leddfu'r ôl-groniad o achosion llys a achoswyd gan bandemig COVID-19. Er mwyn cynnig cyfleoedd adsefydlu heb fod angen mynd i'r llys. Oherwydd y pandemig ac oedi o ran recriwtio, gellid defnyddio tanwariant ar gyfer 2020-21 o gyllideb Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod i dalu cost staff ychwanegol i gynnal y cynllun peilot am y chwe mis cyntaf o 'Future 4'. Wedyn, ar gyfer y 12 mis ychwanegol, cynigir y dylid rhannu'r cyllid yn gyfartal rhwng y gwasanaeth prawf a maes plismona gyda 69% o'r dyraniad ar gyfer plismona (sef £54,584) yn cael ei roi i Heddlu De Cymru a 31% yn cael ei roi i Heddlu Gwent.	Derbyniwyd
25/11/2020	Ymgynghorydd Ymddiriedolaeth Ieuencid	Cais i barhau i gyflogi Ymgynghorydd Ymddiriedolaeth Ieuencid De Cymru sydd wedi bod yn y swydd ers mis Rhagfyr 2019. Nododd y strategaeth codi arian gychwynnol y byddai'n cael ei benodi am dair blynedd. Mae cyllideb o £5k y flwyddyn ar ôl i dalu'r costau tan fis Rhagfyr 2021.	Derbyniwyd

02/11/2020	Samplau Cyffuriau Fforensig	Gohirio achosion sy'n cynnwys dadansoddi Cannabis yn samplau gwaed unigolion yr amheuir eu bod yn gyrru o dan ddylanwad cyffuriau lle y rhoddodd Gwasanaeth Erlyn y Goron gyfarwyddyd i holl Brif Erlynwyr y Goron lle mae'r Goron yn dibynnu ar docsicoleg fforensig.	Derbyniwyd
02/11/2020	Hanes Pobl Dduon Cymru 365	Cais am gyllid i gefnogi Hanes Pobl Dduon Cymru 365, sef rhaglen hyd blwyddyn sy'n rhoi addysg bellach i sefydliadau a chyrrff sy'n cynrychioli pobl o wahanol ddiwylliannau a ffydd. Mae angen £3,500 ar gyfer y rhaglen.	Derbyniwyd
18/09/2020	Gwerthuso'r Rhaglen Fraenaru i Fenywod a'r Gwasanaeth Ymyrryd yn Gynnar i Oedolion Ifanc 18-25 oed	Sefydlwyd partneriaeth gomisiynu rhwng Heddlu De Cymru a Chomisiynydd Gwent, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a Llywodraeth ar gyfer buddsoddiad dwy flynedd i sefydlu manyleb ymchwil er mwyn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer gwerthuso'r gwasanaethau yn effeithiol ac yn addas at y diben – y contract i ddarparu Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod a'r gwasanaeth i oedolion ifanc 18-25 oed. Mae angen £54,932 er mwyn cynnal y gwerthusiad..	Derbyniwyd
18/08.2020	Cyngor Arbenigol ar Gaffael mewn perthynas â Gorsaf Heddlu Canol Caerdydd.	Gofynnodd Bwrdd Ystadau'r Comisiynydd am i ymarfer cwmpasu gael ei gynnal ar ateb datblygwr i ailddatblygu Gorsaf Heddlu Canol Caerdydd gan gynnwys trafodaethau â'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Oherwydd yr amserlenni a'r holl waith sydd angen ei wneud, ariennir hyd at £40k o Gyllideb Gyfalaf Ystadau.	Derbyniwyd

12/08/2020	Gwaredu Gorsaf Heddlu Cwmbach	Ystyrir nad oes angen Gorsaf Heddlu Cwmbach mwyach at ddibenion plismona gweithredol gan fod yr ardal yn cael ei phlismona gan ddefnyddio adnoddau gweithredol o Orsaf Heddlu Aberdâr. Ar ôl ymgyrch farchnata, y cynnig gorau a gafwyd yw £187,000 mewn arian parod ac argymhellwyd y dylid derbyn y cynnig gan y bydd yn cynhyrchu incwm ac yn arbed £9,9585 y flwyddyn mewn costau rhedeg.	Derbyniwyd
07/08/2020	Alldro Dros Dro ar Ddiwedd y Flwyddyn 2019-2020 a Symudiadau Arfaethedig mewn Cronfeydd wrth Gefn	Er mwyn nodi'r alldro ariannol drafft ar gyfer 2019-20 a chymeradwyo'r symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn.	Derbyniwyd
23/06/2020	Prydles Tir Mast Eglwysilan	Mae trosglwyddiad tir yn cael ei gofrestru â'r Gofrestrfa Tir ar hyn o bryd. Cytunodd y partion i gael eu rhwymo gan y prisiad a bwrw ymlaen â'r brydles â Penrhys Properties am daliad untro o £71,400.	Derbyniwyd
26/06/2020	Sefydliad Heddwch (hyfforddiant i Swyddogion Rhawd Ysgolion)	Mae atal yn flaenoriaeth allweddol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac un ymrwymiad yw cefnogi Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru, sef dull arloesol a chydweithredol o weithio gyda phobl ifanc. Sefydlwyd y Sefydliad Heddwch yn 1995 yn dilyn digwyddiad terfysgol. Mae hwn yn gais am £10,000 er mwyn hyfforddi Swyddogion Heddlu Ysgolion i gynnal tri ymyriad pwrpasol sydd â'r nod	Derbyniwyd

		o ddargyfeirio pobl ifanc o eithafiaeth a'u galluogi i ffynnu yn y gymuned.	
09/06/2020	Prosiect Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) – Gofynion Adnoddau	Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu prosiect CCTV cydweithredol ar y cyd â phob un o'r saith Awdurdod Lleol er mwyn cyrraedd sefyllfa gynaliadwy a modern ar gyfer yr ardal gyfan Mae'r prosiect yn gofyn am adnoddau staffio i gynnal y prosiect a chyllid ar gyfer y 12 mis nesaf yn y lle cyntaf. Gofynnir am gyllid gan Swyddfa'r Comisiynydd i dalu hanner costau blynyddol y ddwy swydd, sef £45,388.	Derbyniwyd
26/02/2020	Newidiadau i Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd	Cynnig i foderneiddio'r cynllun a diweddarau'r canllawiau er mwyn adlewyrchu'r newidiadau. Mae'r cynllun yn gofyn am bum llechen i'w defnyddio ym mhob dalfa am gost amcangyfrifedig o £1,224.60. Fodd bynnag, mae Adran TGCh Heddlu De Cymru wedi argymhell y dylid prynu llechi 4G am gost ychwanegol o £200 (am y pump) gan y bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i allu defnyddio 4G pan fo angen.	Derbyniwyd
20/04/2020	Swydd Cydgysylltydd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan	Cynigiodd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan y dylai swydd cydgysylltydd fod yn ofynnol er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni amcanion y Bwrdd yn effeithiol ac yn effeithlon. Cynigiodd y swydd hon a ariennir ar y cyd gyda chyfraniad o £7,218 yr un.	Derbyniwyd
27/04/2020	DRIVE – proses Weithredu ddiwygiedig	O ystyried pandemig y Coronafeirws a'r mesur cyfyngu ar symud sydd ar waith, gofynnir am i gam	Derbyniwyd

		<p>1 y broses weithredu (cyflawni ar safleoedd newydd) gael ei ohirio nawr tan fis Gorffennaf 2020. Cynigir y dylid parhau i weithio er mwyn ategu'r gwaith o gyflwyno Drive, gan gynnwys digwyddiadau i randdeiliaid a pharatoi strategaethau perthnasol fel yr amlinellir yn y cynllun gwaith. Nid oes angen unrhyw gyllid ychwanegol ond dylid nodi bod llithriant posibl yn y flwyddyn bresennol wedi'i gynnwys yng nghyllideb 2021-22.</p>	
27/03/2020	<p>Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVA) Cam 2</p>	<p>Dechreuodd gwaith yn 2015 i adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer SARC ac ISVA ledled De, Canolbarth a Gorllewin Cymru er mwyn ceisio ailfodelu gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau teg a hygyrch y sicrhawyd eu hansawdd i ddioddefwyr trais rhywiol ac ymosodiadau rhywiol. Mabwysiadwyd dull cydweithredol i gefnogi'r uchelgais hon ac mae wedi cynnwys heddluoedd, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Byrddau Iechyd Prifysgol perthnasol.</p> <p>Mae cam 1 y dull gweithredu wedi arwain at gytundebau ynglŷn â threfniadau llywodraethu a chyllido ar y cyd. Er mwyn bwrw ymlaen â Cham 2, cytunwyd bod angen adolygiad annibynnol. Pennwyd cost yr adolygiad ar £8,333 yr un</p>	Derbyniwyd
05/03/2020	<p>Caffael Eiddo i'w ddefnyddio fel Uned Hyfforddi Gyrwyr</p>	<p>Mae swyddfeydd presennol yr Uned Hyfforddi Gyrwyr wedi'u lleoli yn Ocean Way, Caerdydd. Y swyddfeydd hyn yw hyb yr uned ac mae dwy is-swyddfa wedi'u lleoli yn Learning and</p>	Derbyniwyd

		<p>Development Waterton a Lakeside yn Abertawe. Cyflwynwyd rhybudd i Heddlu De Cymru adael yr adeilad ac, felly, mae swyddfeydd eraill wedi'u sicrhau ym Mhen-y-bont ar Ogwr a fyddai'n hygyrch i bob myfyriwr ledled ardal yr heddlu. Ar hyn o bryd, costau rhedeg y safle yng Nghaerdydd yw £78,109 y flwyddyn. Fodd bynnag, yn ardal leol Pen-y-bont ar Ogwr y costau rhedeg yw £67,750 y flwyddyn. Cais i gymeradwyo'r brydles ym Mhen-y-bont ar Ogwr.</p>	
09/03/2020	Swydd Dadansoddwr Bwrdd Rheoli Troseddwy'r Integredig Cymru	<p>Ym mis Ionawr 2020, cytunodd aelodau Bwrdd Rheoli Troseddwy'r Integredig Cymru ar gynnig i sefydlu Swydd Dadansoddwr Partneriaeth i gefnogi gwaith y bartneriaeth ar lefel Cymru gyfan, yn rhanbarthol ac yn lleol. Cynigir y byddai'r swydd yn cael ei sefydlu am gyfnod cychwynnol o dair blynedd (tan fis Mawrth 2023) ac y byddai cyllid yn cael ei ddosbarthu rhwng Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yng Nghymru, pedwar Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Llywodraeth Cymru. Cyfanswm cost flynyddol y swydd yw £43,308 a rennir yn gyfartal rhwng chwe phartner buddsoddi ar £7,218 am y tair blynedd nesaf sy'n gwneud cyfanswm o £21,654 yn ogystal â £36,090 tanysgrifenedig ar gyfer y Pedwar Comisiynydd a Llywodraeth Cymru.</p>	Derbyniwyd

04/03/2020	Tanwariant y Gronfa i Ddiodefwyr i'w ddefnyddio ar gyfer Sefydliad Cymunedol Cymru	Mae'r Gronfa i Ddiodefwyr, a lansiwyd ym mis Chwefror 2016, yn gynnig cyfle i sefydliadau yn y sector gwirfoddol a'r trydydd sector wneud cais am gyllid grant er mwyn darparu gwasanaethau i unigolion y mae troseddu yn effeithio arnynt. Eleni, rydym yn bwriadu canolbwyntio ar gais am grantiau bach gwerth rhwng £1,000 a £10,000 a chytuno ar drosglwyddo tanwariant o £60-87k o gyllideb Gwasanaethau Dioddefwyr i Sefydliad Cymunedol Cymru.	Derbyniwyd
22/02/2020	Argymhelliad ynglŷn â chyllid ar gyfer Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) / Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVA)	Dilynodd y cais am gyllid proses grant gaeedig yn 2019-20. Mae datganiad o ddiddordeb wedi'i gyflwyno i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am gyllid ychwanegol ar gyfer Cynghorydd Annibynnol Gwrywaidd ar Drais Rhywiol. Fodd bynnag, ni cheir cadarnhad gan fis Mawrth 2020. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm cyllid o £15,254 drwy Gyllideb Gwasanaethau Dioddefwyr.	Derbyniwyd
22/02/2020	Cyflawni ac Ymestyn DRIVE	Mae DRIVE yn wasanaeth unigryw a ddarperir ar hyn o bryd yng Nghwm Taf a Chaerdydd gan Merthyr Tudful Mwy Diogel. Er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb y gwasanaeth hwn gwneir cais i rannu adnoddau rhwng ardaloedd eraill ac ehangu'r gwasanaeth i Ben-y-bont ar Ogwr a'r Fro (Cam 1) ym mis Mawrth 2020 ac Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot (Cam 2) ym mis Medi 2020. Cais am gyllid ar gyfer pob un o'r swyddi ehangu drwy un broses recriwtio ac i ddyrannu	Derbyniwyd

		£230k o Gyllideb y Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghyd â £762k arall i gyflawni DRIVE.	
20/02/2020	Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd	Mae'r Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd (2019), a luniwyd ar y cyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru, yn cynnig cyfle i gyflymo'r broses o ddiwygio a thrawsnewid gwasanaethau i fenywod yn y System Cyfiawnder Troseddol drwy ganolbwyntio ar greu atebion cymunedol cynaliadwy ar gyfer cadw menywod a chymunedau yn ddiogel ac yn rhydd o droseddu. Cais i gyflwyno Cynllun Peilot ar gyfer cyflawni Strategaeth Cyfathrebu / Rhanddeiliaid Cyfiawnder Ieuencid a Throseddwyr Benywaidd yn ogystal â Model Ymgysylltu. Dyrennir £70,000 i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yng Nghymru er mwyn gallu dechrau ar waith gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn gweithredu fel y bancer.	Derbyniwyd
03/02/2020	Cyfraniad at 'Stand Up to Domestic Abuse'	Cyflwynwyd cais i Bedwar Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru am gymorth ar gyfer cinio codi arian 'Stand Up to Domestic Abuse' yng Ngwesty'r Celtic Manor ym mis Medi 2020 ar ffurf cyfraniad o £1,250 yr un.	Derbyniwyd
03/02/2020	Rhaglen Gweithlu Cynrychioliadol – Cyllideb Barhaus	Mae'r Rhaglen Gweithlu Cynrychioliadol yn annog pobl BAME i ymuno â'r sefydliad gyda threfniant gyllidebol barhaus o 50/50 rhwng yr heddlu a'r Comisiynydd. Cais am gymorth parhaus i barhau i gymryd camau cadarnhaol ar ffurf cyfraniad o £109,751.	Derbyniwyd

15/01/2020	Cynnig Cyllidebol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) er mwyn parhau i gyflawni Prosiectau am bedwar mis	Cais am gostau ariannol er mwyn helpu i sicrhau parhad rhaglenni presennol o fewn Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2020, megis Ymyriadau Teuluol, Gwasanaeth Eirioli i Weithwyr Rhyw a DRIVE. £50,000 i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. £345,000 ychwanegol o grant gan Gronfa i Ddioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder.	Derbyniwyd
06/01/2020	Cynnig Cyllidebol ar gyfer Cronfa i Ddioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder	Mae darparwyr gwasanaeth yn gofyn am gadarnhad am eu bod yn pryderu bod angen iddynt ddechrau prosesau mewn perygl gyda chyflogeion ac y gallent golli aelodau gwerthfawr o staff i gyflogaeth amgen am fod oedi eisoes o ran cyflwyno hysbysiadau cyllido i bartneriaid a darparwyr gwasanaeth ar ôl 31 Rhagfyr 2019. Gallai hyn effeithio ar y ffordd y darperir gwasanaethau allweddol i ddioddefwyr a chynaliadwyedd y gwasanaethau hynny. Cais am i'r cytundeb gael ei gynnig ar gyfer y dyraniad cyllidebol ar gyfer Cronfa i Ddioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder.	Derbyniwyd